

Cofnodion



Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd

Dyddiad: Dydd Iau, 20 Chwefror 2020

Amser: 10.00 am

Lleoliad: Cyngorwyr D Fouweather (Cadeirydd), J Clarke, M Whitcutt, C Evans and M Evans

Felicity Collins, Anne Jenkins (Governance Team Leader) and Gareth Price (Head of Law & Regulation)

Ymddiheuriadau: Cyngorwyr K Thomas, T Watkins, J Hughes and G Berry

1 Datganiadau o ddiddordeb

Dim.

2 Cofnodion y Cyfarfod Diwethaf

Cytunwyd bod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 24 Hydref 2019 yn gofnod gwir.

Eitem 6: Cadeirydd y Cyngor

Teimlwyd nad oedd y cofnodion yn adlewyrchu'r drafodaeth hirfaith a fu ynglŷn â'r pwnc hwn. Roedd yn bwysig nodi bod y costau ychwanegol a phwynt o egwyddor ar wahanu rolau yn bryder cyffredinol ac felly gwnaed penderfyniad unfrydol gan y Pwyllgor i beidio â phenodi Cadeirydd i'r Cyngor/Aelod Llywyddol.

Eitem 5: IRP ar gyfer Cymru Adroddiad Blynyddol Drafft 2020

Nododd y Pwyllgor fod yr adroddiad uchod wedi dod i law yn gynharach yn yr wythnos o dan faterion sy'n codi ac y byddai'n cael ei ychwanegu at raglen waith y Cyngor ar gyfer Ebrill 2020.

3 Adolygiad o'r Cyfansoddiad - Cynllun Dirprwyo Diwygiedig Swyddogion

Fel rhan o'r flaenraglen waith a'r cylch gorchwyl ar gyfer y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd, roedd yn ofynnol i'r Pwyllgor barhau i adolygu trefniadau llywodraethu cyfansoddiadol y Cyngor.

Yn unol â'r cynllun dirprwyo a gymeradwywyd gan y Cyngor, a nodir yn rhan 3 Atodiad 3 o gyfansoddiad y Cyngor, dirprwywyd nifer o swyddogaethau statudol i'r penaethiaid gwasanaeth hynny a oedd wedi'u hawdurdodi i gyflawni'r dyletswyddau hyn ar ran y Cyngor. Cafodd Cynllun Dirprwyo Swyddogion ei adolygu ddiwethaf a'i ddiweddarau ym mis Hydref 2017 ac ers hynny; bu rhai newidiadau deddfwriaethol a diwygiadau i weithdrefnau'r Cyngor. Roedd angen i'r newidiadau a'r diwygiadau hyn gael eu hymgorffori mewn cynllun dirprwyo diwygiedig wedi'i ddiweddarau i'w fabwysiadu gan y cyngor llawn.

Ar y rhan fwyaf, nid oedd angen diwygio'r cynllun dirprwyo blaenorol yn sylweddol. Fodd bynnag, ers yr adolygiad diwethaf, cyflwynwyd deddfwriaeth newydd i ymdrin â systemau

draenio cynaliadwy ("SDCau") ar gyfer datblygiadau newydd a phwerau dirprwyedig ychwanegol sydd eu hangen i roi pennaeth gwasanaethau'r ddinas i'w alluogi i benderfynu ar geisiadau a'r holl swyddogaethau cysylltiedig eraill o dan Atodlen 3 o Ddeddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010 ar ran y Cyngor fel y Corff Cymeradwyo SDCau ("CCDC").

Yn ogystal â hyn, rhoddwyd gwybod i'r Pwyllgor fod newidiadau wedi'u gwneud i'r cynllun dirprwyo presennol i roi dirprwyaeth lawn i'r Pennaeth Tai Adfywio a buddsoddi i benderfynu ar fân drafodion eiddo, fel yr argymhellwyd yn flaenorol gan y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd yn ei gyfarfod ym mis Tachwedd 2018.

Sylwadau'r Pwyllgor:

- Gofynnodd y Pwyllgor a oedd atebolrwydd ar gyfer Aelodau'r Cabinet o dan y trefniant newydd hwn ac a fyddai'n rhaid eu galw i mewn. Cynghorwyd, gan fod hwn bellach wedi'i ddyrannu i bennaeth gwasanaethau Strydlun a Dinas a bod unrhyw benderfyniadau'n cael eu gwneud gan y swyddog cyfrifol oherwydd cymhlethdodau technegol y materion hyn. Roedd hyn yn debyg i'r penderfyniadau a wnaed gan y grŵp Rheoli Adeiladu lle byddai swyddog cymwys mewn gwell sefyllfa i awdurdodi'r penderfyniadau hyn.
- Cyfeiriodd y Pwyllgor at y Ddeddf Gamblo a phe bai gan Gasnewydd bwerau i ganiatáu i gasinos weithredu yn y ddinas. Mater o bolisi oedd hwn ac roedd gwahanol fathau o drwyddedau, rhai ohonynt ag elfen o ddisgresiwn lleol. Pe byddai casino yn agor o fewn y ddinas byddai'n cael ei ystyried fel barn polisi o fewn rolau'r Arweinydd.
- Cyfeiriodd y Pwyllgor yn gyffredinol hefyd at y Cynllun Dirprwyo sy'n penodi'r Prif Weithredwr fel Swyddog Canlyniadau'r Cyngor. Hysbyswyd y Pwyllgor na fu'n ofynnol i'r Prif Weithredwr erioed fod yn Swyddog Canlyniadau ac mewn rhai cynghorau fel Caerdydd, ymgymrodd y Pennaeth Cyllid â'r ddyletswydd hon. Dewisodd Cyngor Dinas Casnewydd ddynodi'r Prif Weithredwr. Fodd bynnag, golygai deddfwriaeth newydd a orfodwyd gan Lywodraeth Cymru y byddai teitl y Swyddog Canlyniadau yn gysylltiedig â phob Prif Weithredwr yng Nghymru yn y dyfodol heb unrhyw gymhelliant ariannol ychwanegol. Cafwyd trafodaeth fer ynghylch ffioedd a chyfrifoldebau'r Swyddog Canlyniadau.

Cytunwyd:

Cytunodd y Pwyllgor ar y newidiadau arfaethedig i'r Cynllun Dirprwyo i Swyddogion ac argymhellodd y dylid ei fabwysiadu fel rhan 3 Atodiad 3 o'r cyfansoddiad yn y Cyngor ar 27 Chwefror 2020.

4 IRP Adroddiad Atodol

Teimlwyd nad oedd yr aelodau yn manteisio ar y cymorth ariannol a oedd ar gael i'r rhai â chyfrifoldebau gofalu sylfaenol am blentyn neu oedolyn a/neu anghenion cymorth personol pan nad oedd y rhain yn dod o dan fudd statudol neu ddarpariaeth arall.

Felly roedd yr Ombwdsmon am atgoffa cynghorwyr o'r budd hwn drwy'r adroddiad atodol hwn er mwyn codi ymwybyddiaeth drwy'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd. Gan fod lwfansau'n cael eu cyhoeddi, teimlwyd y gallai cynghorwyr hefyd deimlo'n rhy swil i ddatgan y lwfans, ond byddai unrhyw gais am ofal yn cael ei gyhoeddi fel rhestr ddiennw.

Sylwadau gan Gynghorwyr:

- Cytunodd y Cadeirydd fod y rhan fwyaf o'r aelodau'n ymwybodol iawn o'r lwfansau yr oeddent yn eu hawlio yn enwedig treuliau presenoldeb cyffredinol, gan eu bod yn teimlo eu bod yn rhan o waith craffu cyhoeddus.

- Dywedwyd wrth y Pwyllgor y byddai gan yr Aelodau hawl o hyd i gael y lwfans hwn ynghyd â'r lwfans gofal ychwanegol, a allai gael ei dderbyn gan y Llywodraeth. Roedd hwn ar gael hefyd i uwch ddeiliaid cyflog megis Aelodau'r Cabinet ac i'r Aelodau hynny a oedd yn mynychu cyfarfodydd.
- Cytunodd y Pwyllgor y dylai Aelodau gael gwybod am y lwfans ychwanegol hwn ac y byddai'r cymorth ariannol yn rhoi sicrwydd i'r rhai sydd â phlant neu oedolion sydd angen gofal ychwanegol.

Cytunwyd:

Argymhellodd y pwyllgor fod crynodeb o'r adroddiad atodol yn cael ei ddsbarthu i bob aelod er gwybodaeth iddo, gan Arweinydd y Tîm Llywodraethu.

5 Cymorth i Gynghorwyr yn eu Gwaith Ward

Cytunwyd yn flaenorol bod y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd yn adolygu cefnogaeth i Gynghorwyr yn eu gwaith ward fel rhan o'r rhaglen waith ar gyfer 2018-19. Cytunodd y Pwyllgor ar gwmpas adolygiad pellach o'r trefniadau cymorth ac ymgysylltu ym mis Gorffennaf 2018. Roedd yr ymchwil flaenorol wedi canolbwyntio'n bennaf ar y dulliau ymgysylltu eu hunain, a Phwyllgorau Cymdogaeth/cyfarfodydd wardiau yn benodol. Roedd y ffocws, felly, ar yr adolygiad ychwanegol hwn yn ymwneud yn benodol â'r cymorth ymarferol yr oedd ei angen ar gynghorwyr i wneud eu gwaith ward yn effeithiol, drwy'r holl dulliau gwahanol a oedd ar gael iddynt.

Cafodd y Pwyllgor gyflwyniadau interim ar uwchraddio i Aelodau TG a datblygu pecyn i Aelodau ar-lein i gynorthwyo a chefnogi cynghorwyr i gyflawni eu rôl gynrychioliadol o fewn eu cymunedau lleol. Oherwydd newidiadau, fodd bynnag, mewn personél allweddol ac yn aelodau o'r Pwyllgor, ni chafodd canlyniad yr adolygiad erioed ei gwblhau a'i gymeradwyo'n ffurfiol. Yn benodol, ni thynnwyd unrhyw gasgliadau terfynol ynghylch a ddylai'r pwyllgorau cymdogaeth/cyfarfod ward barhau yn eu ffurf bresennol yng ngoleuni'r datblygiadau sylweddol mewn dulliau eraill o ymgysylltu â chymunedau lleol o fewn wardiau unigol.

Felly, crynhodd yr adroddiad hwn ganlyniad yr adolygiad o gymorth i gynghorwyr yn eu gwaith ward a gwahodwyd y Pwyllgor i ystyried y dewisiadau ynghylch pwyllgorau cymdogaeth/cyfarfodydd ward.

Sylwadau'r Pwyllgor:

Roedd y Pwyllgor yn deall nad oedd yna ddull cyson o fynd i'r cyfarfodydd ward. Nodwyd hefyd nad oedd pob un o Aelodau'r ward yn gallu lleisio eu barn yn y cyfarfod hwn.

- Roedd aelodau ward Tŷ-Du yn eiriolwyr brwd dros gyfarfodydd ward, a oedd yn anwleidyddol ac yn ddefnyddiol i breswylwyr o safbwynt gwybodaeth. Roeddent hefyd yn bwysig i etholwyr sy'n codi materion unigol gydag aelodau wardiau ac roeddent yn boblogaidd.
- Roedd rhai preswylwyr nad oeddent yn defnyddio cyfryngau cymdeithasol yn teimlo bod cyfarfodydd ward yn ddefnyddiol, a theimlwyd y byddai cynghorwyr yn colli eu cymuned pe bai cyfarfodydd ward yn cael eu colli.
- Roedd trefniadau ad hoc neu ymylol ar waith ar gyfer rhai wardiau yn dal i fod yn effeithiol, fel cynnal cyfarfodydd i drafod y gyllideb neu faterion strategol eraill a fyddai'n effeithio ar drigolion ledled y ddinas.
- Nid oedd rhai o Aelodau'r ward yn rhedeg cymorthfeydd ward Fodd bynnag, os oedd gan etholwyr bryderon, byddent yn cyfarfod â hwy ar sail un i un, fel Allt-yr-ynn.
- Teimlwyd felly bod gan bob ward ffordd unigol o gynnal eu cyfarfodydd ward ac roedd dadl o blaid ac yn erbyn, fodd bynnag, dylid ei gadael ar gyfer disgresiwn unigol pob aelod o'r ward.

- Er ei bod yn anodd, o safbwynt swyddogion, tynnu'r llinell rhwng cefnogaeth wleidyddol a materion un ward, soniodd aelodau wardiau y byddai materion plwyfol yn cael eu codi p'un a oeddent mewn cyfarfodydd ward neu gymorthfeydd. Gyda swyddog yn bresennol, gallai preswylwyr gael adborth ar unwaith. Roedd yna hefyd lwybr archwilio
- Ychydig o adnoddau ariannol oedd ar gael ond byddai cyfarfodydd ward yn gofyn am gefnogaeth a phresenoldeb swyddogion.

Cytunwyd:

O ran yr adolygiad o gymorth i gynghorwyr yn eu gwaith ward ac unrhyw argymhellion i'r Cyngor mewn perthynas â phwyllgorau cymdogaeth/cyfarfodydd ward, cytunwyd y byddai'r sefyllfa bresennol o ran cyfarfodydd ward yn parhau.

6 Comisiwn Ffiniau Arolwg o Drefniadau Etholiadol- Cynigion Drafft

Roedd Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru yn adolygu'r trefniadau etholiadol ar gyfer Dinas Casnewydd gyda'r bwriad o ystyried a llunio cynigion ar gyfer trefniadau yn y dyfodol. Roedd hyn yn rhan o raglen y Comisiwn i adolygu'r holl brif gynghorau yng Nghymru, mewn pryd i'r trefniadau newydd gael eu cyflwyno ar gyfer yr etholiadau llywodraeth leol nesaf yn 2022. Casnewydd oedd yr 17eg Cyngor i gael ei adolygu.

Cyhoeddodd y Comisiwn y dogfennau ymgynghori cychwynnol ar 30^{fed} Ionawr 2019, yn dangos y cymarebau etholwyr i gynghorwyr presennol yn y ddinas a sut roedd y rhain yn cymharu â'u polisi ar faint cynghorau a chymarebau delfrydol. Sefydlwyd gweithgor trawsbleidiol i adolygu'r dystiolaeth a'r opsiynau ar gyfer y trefniadau etholiadol yng Nghasnewydd yn y dyfodol, ac i lunio ymateb drafft i broses ymgynghori gychwynnol y Comisiwn. Cyflwynwyd adroddiad terfynol y grŵp i'r cyngor llawn ar 30 Ebrill 2019, pan gafodd yr argymhellion eu cymeradwyo a'u mabwysiadu. Yna cyflwynwyd cynigion y cyngor a'r opsiynau a ffeirir i'r Comisiwn i'w hystyried.

Cwblhawyd Cynigion Drafft y Comisiwn ym mis Hydref 2019 ond ni chawsant eu cyhoeddi tan fis Ionawr 2020. Mae gan y Cyngor tan 8 Ebrill 2020 i lunio a chyflwyno unrhyw ymateb i'r cynigion drafft. Yna byddai'r Comisiwn yn ystyried unrhyw ymatebion i'r ymgynghoriad cyn llunio eu cynigion terfynol, a fyddai'n cael eu cyflwyno i Weinidogion Llywodraeth Cymru i'w cymeradwyo, gyda neu heb addasiadau. Yna byddai'r Gorchymyn angenrheidiol yn cael ei wneud i roi'r trefniadau etholiadol newydd ar waith cyn yr etholiadau llywodraeth leol nesaf ym mis Mai 2022.

Yn gryno, byddai'r cynigion drafft yn sefydlu Cyngor â 49 o Aelodau a 22 o wardiau, o'i gymharu â'r 50 o Aelodau a'r 20 ward presennol.

Byddai cymunedau Gwynllŵg a Choedcernyw yn cael eu symud o ward bresennol Maerun a'u cyfuno â ward bresennol Parc Tredegar i ffurfio Parc Tredegar Newydd a ward Dwyrain Maerun. Byddai gan y ward newydd ddau aelod, a byddai gan weddill Maerun un.

Byddai rhan o gymuned bresennol y Graig yn cael ei huno â Chymuned Tŷ-Du. Byddai ward bresennol Tŷ-Du yn cael ei rhannu'n dair ward newydd gyda phedwar aelod rhyngddynt.

Byddai rhan o gymuned bresennol Pilgwenlli yn cael ei throsglwyddo i Stow Hill, y ddwy ward yn cadw dau aelod yr un.

Byddai cymuned Llangadwaladr Trefesgob yn trosglwyddo o Lanwern i Langstone. Byddai Cymuned Trefonnen yn trosglwyddo o Lyswry i Lanwern gyda chynrychiolaeth heb ei newid.

Byddai wardiau Betws a Beechwood yn aros heb eu newid, ond byddai'r aelodaeth yn cael ei gostwng o dri aelod i ddau ym mhob ward.

Sylwadau'r Pwyllgor:

Cafwyd trafodaeth hirfaith ac ystyrlon ynghylch sut y byddai'r argymhelliad i'r Cyngor yn cael ei gyflwyno ac ar ôl ystyriaeth ofalus, nodwyd y casgliad cyffredinol yn yr argymhellion canlynol.

- Dywedodd y Cadeirydd y dylid cynnal cyfarfod eithriadol o'r Cyngor i drafod y cynigion a'r argymhellion i'w cyflwyno i'r Comisiwn Ffiniau.
- Yr oedd y Pwyllgor o'r farn na ellid cyflawni ymateb unfrydol mewn Cyngor eithriadol. Felly, un ymateb a awgrymir fyddai edrych ar farn unigolion a fynegir gan y cyhoedd yn hytrach na barn gyfunol gan y Cyngor. Yn ogystal, pe byddai unrhyw farn, gallai'r pleidiau gwleidyddol roi'r rhain i'r Comisiwn Ffiniau.
- Dywedodd y Swyddog Monitro fod y Pwyllgor yn cytuno ar gonsensws cyffredinol i fynd yn ôl at y Comisiwn Ffiniau.
- Gofynnwyd i'r Aelodau ystyried y gostyngiad arfaethedig yn nifer y cynghorwyr yn wardiau Betws a Beechwood a gyflwynwyd gan y Comisiwn Ffiniau. Pe byddai'r Pwyllgor yn cytuno yn y Cyngor y dylid cadw'r niferoedd yn hytrach na'u lleihau, byddai hyn yn golygu bod dau gynghorydd ychwanegol ar gael, yn hytrach na'r 49 o gynghorwyr arfaethedig. Efallai y bydd wardiau un aelod yn rhywbeth y gallai cynghorwyr gytuno arno a gallai hyn fod yn ddull cyson gan y Cyngor wrth gytuno i hyn. Nid oedd y canlyniad cyffredinol yn rhy siomedig a byddai unrhyw gynghorwyr ychwanegol o fewn y ffiniau a bennwyd gan y Comisiwn Ffiniau, gan ganiatáu i'r Cyngor gynyddu gan un neu ddau. Felly byddai 51 o gynghorwyr yn dal i fod yn dderbyniol o ran maint cynghorau a byddent yn gadael y drws ar agor i Lanwern yn yr arolwg nesaf.
- Cytunodd y Pwyllgor yn gyffredinol fod Casnewydd yn tyfu a bod tri aelod yn nifer hyfyw. Ystyriwyd bod y cynnydd yn y niferoedd i aelodau ward Tŷ-Du hefyd yn nifer realistig. Dylai wardiau Betws a Beechwood ymwneud â'r niferoedd felly dylid cadw tri aelod ar bob ward.
- Cyfeiriodd y Pwyllgor at drafodaethau'r grŵp trawsbleidiol, a gynhaliwyd y llynedd. Yn gyffredinol, roedd yr Aelodau'n cytuno, fel yr oedd y Comisiwn Ffiniau â'r pwyllgor trawsbleidiol cyn iddynt fynd i'r Cyngor. Newidiodd y penderfyniad hwn yn y Cyngor felly nid oedd rhai o'r Pwyllgor yn argyhoeddedig y byddai cytundeb cyffredinol yn y Cyngor. Newidiodd consensws trawsbleidiol cyffredinol yn y Cyngor.
- Cynghorodd y Pwyllgor y dylid ystyried llwyth gwaith y ward unigol, daearyddiaeth, cymuned, cydlynad, tuedd, twf ac ati, gan gadw hyn mewn cof dylai'r Betws a Beechwood aros yr un fath ac er bod amrywiaeth sylweddol, roeddent yn gymunedau cydlynol a mawr. Y consensws cyffredinol, felly, oedd na ddylai'r Comisiwn Ffiniau ddilyn dull ystadegol.
- Roedd y Comisiwn Ffiniau yn barod iawn pan gysylltwyd ag ef, a thynnwyd sylw at hyn mewn perthynas â ward Tŷ-Du. Croesawodd Aelodau ward Tŷ-Du aelod ychwanegol o'r ward ond nid oeddent yn cytuno â rhannu Tŷ-du. O safbwynt cymhareb, roedd gwaith y Comisiwn Ffiniau yn seiliedig ar bobl sydd wedi cofrestru i bleidleisio. Fodd bynnag, roedd aelodau wardiau yn delio â gwaith achos etholwyr nad oeddent wedi'u cofrestru i bleidleisio ac roeddent o'r farn bod y rhesymeg a ddefnyddiwyd gan y Comisiwn Ffiniau yn ddiffygiol. Nododd y Comisiwn Ffiniau nad oedd yn hoffi wardiau aml-aelod a bod yn well ganddo un aelod i bob ward ond ni ddywedodd pam. Er nad oedd y Comisiwn Ffiniau ond yn cofnodi pleidleiswyr cofrestredig, roeddent wedi ystyried y ffactorau cymdeithasol-economaidd. Ar ôl trafodaeth faith, daeth y Swyddogion Monitro i'r casgliad o ran niferoedd, fod Casnewydd wedi dod allan yn eithaf da, ac nad oedd o reidrwydd yn gallu anghytuno â'u methodoleg.

Cyfeiriodd y Cadeirydd hefyd at bobl ifanc 16 oed yn gallu pleidleisio. Roedd hyn hefyd wedi'i gynnwys yn y ffigurau ond nid oedd yn gwneud unrhyw wahaniaeth i'r canrannau.

- Roedd y Pwyllgor yn pryderu y byddai'r sefyllfa ar gyfer ward y Betws yn benodol, yn rhoi straen ar ddau aelod gan eu bod yn gweithio'n eithriadol o galed ac y byddai lleihau'r cynghorwyr yn rhoi mwy o faich arnynt yn y gweithle ac na fyddai'r preswylwyr yn cael y gwasanaeth yr oeddent yn ei haeddu.
- Er bod y Pwyllgor yn cytuno'n gyffredinol na ddylai ward Tŷ-Du gael ei rhannu, cytunwyd yn y Cyngor ym mis Ebrill 2019 y byddent yn gwneud hynny.

Cytunwyd:

- Ar ôl trafodaeth ac ystyriaeth ofalus iawn, argymhellodd y Pwyllgor na ddylai'r Cyngor, ar 27 Chwefror 2020, gyflwyno ymateb i'r Comisiwn Ffiniau.
- Bod tri chynghorydd yn parhau ar gyfer wardiau Betws a Beechwood.

7 Dyddiad y Cyfarfod Nesaf

Ystafell Bwyllgora 1 am 5pm ar 21 Mai 2020.